"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1887. [RHIF 67.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Sir Isaac Newton (1642—1727)	49
Gweinidogaeth y Llythyren a Gweinidogaeth yr Ysbryd	51
Hen Fynwent Llwynrhydowen	54
Cymmeriad Od	56
Hyfforddi'r Plant	59
Eilunod Arglwydd Bacon	62
Nodynau Gwasgarog	63
Manion a Hanesion	69
Marwgofion	71

Pris Tair Ceiniog.

ABERDÂR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1887. [RHIF 67.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

SYR ISAAC NEWTON (1642—1727).

Nature and Nature's laws lay hid in night;
God said, "Let Newton be," and all was light.—*Alex. Pope.*

WELE, bellach, ychydig am y pummed a'r olaf, y mwyaf, efallai, a'r enwocaf, o'r mawrion y mae y byd yn ddyledus iddynt am eu gwybodaeth seryddol. Ganwyd Newton ger Grantham, yn Swydd Lincoln. Gosododd ei hunan yn ieuanc yn y dosparth blaenaf fel seryddwr, gwyddonydd, a rhifyddwr. Dangosodd yn foreu ei fod yn neillduol hoff o efrydiaeth, a chanddo chwaeth arbenig at fesuryddiaeth a pheiriannaeth. Bwriad ei fam (yr oedd ei dad wedi ei gladdu) oedd iddo gael dysgu gweithio ar yr *estate;* ond wedi cael allan nad oedd ynddo ddim cymhwysder at y fath alwad, gadawodd iddo ddylyn ei duedd naturiol ei hunan. Yn 1660, danfonwyd ef i Brif Ysgol Caergrawnt, a than ofal yr enwog Ddr. Barrow, fel ei athraw mewn *mathematics.* Cyn hir aeth heibio i'w feistr, a chyn ei fod yn 23 oed, yr oedd wedi gwneuthur ei ddarganfyddiadau penaf mewn *mathematics.* Yn 1662, gadawodd Gaergrawnt i ochelyd yr haint, a dychwelodd i Woolstrop. Yno, wrth weled afal yn syrthio, dywedir iddo gael ei feddylddrych cyntaf am ddeddf dysgyrchiad a chyfundrefn y bydysawd. Yn 1669, cafodd gadair Dr. Barrow, a thraddododd gyfres o ddarlithiau ar *optics,* yn y rhai y gosodai allan feddylddrychau hollol newyddion.

Yn ol Proff. Stuart, yr oedd sefyllfa pethau yn rhywbeth tebyg i hyn pan y daeth Newton i'w cymmeryd i fyny:—Yr oedd Kepler wedi darganfod rhai deddfau pwysig, y rhai, ar y cyfan, a gaed yn eithaf cywir, ond eu bod yn wastad yn dangos rhyw afreoleiddiwch bychan. Yr oedd Galileo wedi gosod allan ddeddfau mudiad yn amlwg. Ymddangosai megys yn rhyw fath o ddygwyddiad hollol i Newton eu hesponio

o gwbl; ond pan wnaeth hyny, gwnaeth hyny yn rhwydd, ac nid ymddangosai iddo ef un anhawsdra yn y peth. Gofynodd rhywun iddo gwestiwn, ac atebodd yntau ef. Yr oedd yr holl fyd (dysgedig) wedi bod yn ceisio, ac wedi bod yn ymffrostio y deuent i ateb y cwestiwn ryw ddydd, tra'r oedd Newton trwy'r amser yn ei wybod, heb feddwl ei fod yn rhywbeth pwysig i'w wybod. Yr oedd llawer wedi bod yn treio eu llaw ar y *problem* dyrys i gyfrif am y symmudiadau hyn wrth ddeddfau yni *(force)*, ond nid oedd neb wedi llwyddo. Nid oeddynt wedi llwyddo am nad oeddynt yn dechreu ar y pen iawn. Ond yr oedd Newton wedi ei ddwyn i fyny, fel pe byddai, i fod yn fawr ac yn anymwybodol—yn hyny, wrth gwrs, yn wahanol i ddynion bach mawr. Yr oedd efe wedi myned trwy y llafur hir angenrheidiol blaenorol, yr hwn yr oeddynt hwy wedi bod yn rhy ddiamynedd i'w gymmeryd i fyny. Yr oedd wedi treulio bywyd hir gyda'r gwaith mesuryddol, a chyda'r ymresymiadau hir a dyrys ag oeddynt yr unig barotoad addas ar gyfer y gwaith angenrheidiol; ac yna, pan ddaeth y gwaith i'w gyflawnu, efe a'u cyflawnodd, a hyny heb deimlo un anhawsder, ac heb feddwl ei fod wedi gwneuthur dim o bwys. Yr oedd y papyrau, a'r dirgelion ynddynt, ag oedd pawb yn ceisio am danynt, yn gorwedd ar ei fwrdd ef, nid o un balchder nac o un esgeulusdod o'i eiddo ef, ond am ei fod, yn ei fawredd syml, yn hollol anymwybodol fod dim mawr wedi ei wneuthur. A phan y mae yn deffroi i fawredd ei genadwri, a phan y mae yn cael ei yru gan y teimlad hwnw, mae yn llafurio ddydd a nos nes ei orphen, ac yn setio y gemau oeddynt yn gorwedd yn rhyddion yn yr egwyddor sydd yn esponio y gyfundrefn heulog.

Anrhydeddir Newton fynychaf uwchlaw yr enwogion ereill; efallai yn annghyfiawn felly. Mae rhyw duedd i ddyrchafu gorphenydd y gwaith, tra mae y cyfryw ydynt, trwy eu hunan-aberth, wedi llenwi y gors iddo ef gael pasio drosodd, yn annghofiedig ac anweledig. Ni ddylai hyn fod. Ni orphenwyd gwaith mawr erioed heb hunan-aberth. Mae y byd yn rhy barod, efallai, i orbarchu y gwaith gorphenedig, gan annghofio y cychwynwyr cyntaf—dynion ardderchog a rhyfeddol, enwau y rhai ydynt yn syrthio i gysgod y gogoniant y maent yn ei greu.

Fel darganfyddwr deddf dysgyrchiad mae y byd yn canmol Newton. "Nid felly fi," ebe Stuart, "er fy mod yn canmol Newton uwchlaw yr oll, ond nid am hyny. Yr wyf yn ei ganmol, nid am orphen gwaith ei ragredegwyr, ond am iddo gyflawnu ei waith mor dda—mor rhyfeddol dda; yn wir, y mae bron wedi cyflawnu gwaith y byd ar ei ol. Nid oes braidd *step* wedi ei chymmeryd mewn gwyddor na ddarfu iddo ef ei rhagweled. Yr oedd Duw megys wedi symmud oddiar ei lygaid ef y niwl oedd yn gordoi dynolryw. Yr oedd yn rhyfeddol am sefydlogrwydd ei amcan. A pheth rhyfedd am dano oedd, na ddarfu iddo erioed feddwl am dano ei hunan fel rhywun mawr. Rhyw dro, fe ddywedodd fel hyn:—'Os ydwyf wedi gweled yn mhellach nâ dynion ereill, y mae hyny yn bod am fy mod wedi sefyll ar ysgwyddau cewri.' Gwyddom pwy oedd y cewri—y rhai a aethant o'i flaen, ffrwyth llafur y rhai a gasglwyd ganddo ef i'w ysgubor."

Gallwn feddwl ei bod yn ddymuniad naturiol genym i gael allan fod y dynion a wnaethant y pethau mawrion dros eu rhyw yn ddynion da; ac y mae yn syndod fel y mae ein dymuniadau yn cael eu sylweddoli yn yr hanes hwn. Yr oedd y pump dyn hyn yn wahanol iawn i'w gilydd—tlawd a chyfoethog, uchel ac isel, tawel a garw, mwyn a chynhyrfus; ond yr oeddynt yn gyffelyb oll mewn un peth: yr oeddynt oll yn dda iawn. Yr oeddynt oll megys plant bychain yn eu duwioldeb iselfrydig ac yn eu haddoliad o'r Duw hollbresenol, "yr hwn," yn ngeiriau Newton, "sydd yn goruwchlywodraethu pob peth, nid yn unig megys Yspryd Natur, ond megys Arglwydd pob peth; Duw y duwiau, Arglwydd yr arglwyddi. . . . . Tragwyddol yw Efe, ac Anfeidrol, hollalluog ac hollwybodol. Mae yn parhau o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, ac yn bresenol o anfeidroldeb i anfeidroldeb. Efe sydd yn rheoli pob peth, ac y mae yn gwybod pob peth sydd yn cael ei wneuthur neu a all gael ei wneuthur. Nid tragwyddoldeb ac anfeidroldeb ydyw Efe, ond tragwyddol ac anfeidrol. Nid amser a lle yw, ond y mae Efe yn parhau, mae Efe yn bresenol, mae yn parhau byth, mae yn bresenol yn mhob man; yn bodoli yn wastad ac yn mhob man, Efe sydd yn gwneuthur i fyny amser a lle."

Anian a deddfau o'ent
Gan leni'r nos yn gudd;
"Boed Newton," ebe Duw, a daeth
Yr oll yn oleu dydd.

GWEINIDOGAETH Y LLYTHYREN A GWEINIDOGAETH YR YSPRYD.

Y MAE yna ddwy ffordd o ddarllen y Beibl. Un ffordd yw cymmeryd pob peth yn llythyrenol, y llall yw chwilio a derbyn yspryd y Beibl. Yn ol yr athrawiaeth o ysprydoliaeth gyflawn, y mae pob gair o'r Beibl yn air Duw; yn ol yr olwg arall, yspryd y Beibl yw yr hyn sydd Ddwyfol.

Mae y syniad o gyflawn ysprydoliaeth yn gofyn genym gredu nad oes cyfeiliornadau neu wrthddywediadau yn y Beibl o Genesis i'r Datguddiad; fod pob rhan yn gyfartal air Duw; fod yr hyfforddiadau manwl yn Lefiticus a Numeri gyda golwg ar lusernau ac udgyrn arian, anifeiliaid glân ac aflan, &c.—fod y rhai hyn i gyd wedi dyfod yn uniongyrchol oddiwrth y Bôd Anfeidrol, ac mor ysprydoledig â'r bregeth ar y mynydd. Y mae hefyd yn angenrheidiol, yn ol y syniad hwn, pan fyddom yn canfod yr hyn sydd yn ymddangos yn gyfeiliornad, neu yn wrthddywediad, i ddal nad ydyw y naill na'r llall; i ddal fod Dafydd, pan yn melldithio ei elynion, yn cael ei ysprydoli i wneuthur hyny; fod y byd wedi ei greu mewn chwech diwrnod; fod Duw wedi rhodio yn yr ardd, ac edifarhau wedi iddo greu dyn; fod y morfil wedi llyncu Jona, ac iddo fyw dri diwrnod a thair noswaith yn mol y pysg-

odyn; ac fod yr haul wedi aros wrth arch Josua, er galluogi cadfridog Iuddewig i gwblhau dinystr ei elynion.

Ond pan fyddom yn darllen y Beibl yn ol yr ysprydd, nid yw y pethau hyn ond rhai cymharol ddibwys. Nid ydym yn blino ein hunain gyda golwg ar Jona neu Josua, o herwydd nid oes gan hyn ddim i'w wneyd â ffydd yn Nghrist. Yr ydym yn gadael yr us ac yn cymmeryd y gwenith; yr ydym yn gadael y plisgyn ac yn bwyta y cnewullyn; yr ydym yn ymofyn am yr hyn sydd wir, ac yn gadael llonydd i'r cyfeiliornadau.

Mae yn hynod fod yr Eglwys Gristionogol wedi glynu mor dŷn wrth lythyren yr Ysgrythyr, er fod yr Iesu ei hunan a'i apostol mawr, Paul, wedi cyhoeddi yn eglur mai yr ysprydd yn unig yw yr hyn sydd yn rhoddi bywyd. Y mae Iesu yn galw ei hunan yn "fara'r bywyd," "y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef," ac ychwanega mai y bara hwn oedd ei gnawd, ac meddai, "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes genych fywyd ynoch." Cymmerodd yr Iuddewon hyn yn llythyrenol, a dywedasant, "Pa fodd y gall hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwyta?" Ond eglurodd Iesu iddynt mai wrth fara a chnawd a gwaed y golygai efe ei ysprydd. "Yr ysprydd yw yr hyn sydd yn bywhau; y cnawd nid yw yn lleshau dim; y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, ysprydd ydynt, a bywyd ydynt."

Mae Paul hyd y nod yn ail-adrodd yn fwy nerthol fyth yr hyn sydd yn cael ei ddywedyd gan Iesu. Cyhoedda Paul ei fod ef a'i gyd-apostolion wedi eu gwneyd "yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd (neu y Cyfammod Newydd); nid i'r llythyren, ond i'r ysprydd: canys y mae y llythyren yn lladd, ond yr ysprydd sydd yn bywhau." Gan hyny, y mae gan y Cyfammod Newydd, fel yr hen, ei lythyren a'i ysprydd; ac y mae gorphwys ar y llythyren yn lladd yr ysprydd.

Yn mha ffordd y gall llythyren yr Efengyl ladd ysprydd yr Efengyl? Gadewch i ni egluro. Pan, gan orphwys ar adnod yn Exodus, "Na chaffed hudoles fyw," pan oedd Cristionogion yn llosgi i farwolaeth filoedd o ddynion a benywod, ai nid yw yn amlwg fod llythyren y Beibl wedi lladd yn eu calonau ysprydd y Beibl? Pan oedd Louis XIV., fel dyledswydd grefyddol, ac i osod i lawr athrawiaeth gyfeiliornus, ac yn gorphwys ar ymadroddion fel hyn, "Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir; eithr yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes," pan yn anfon dynion, benywod, a phlant i garchar ac i angeu am fynychu addoliad Protestanaidd; ai nid yw yn amlwg fod llythyren credo wedi lladd mewn eneidiau o'r fath hyna ysprydd cariad? Oni wnai Iesu geryddu y sêl Satanaidd hon, gan ddywedyd, "Ni wyddoch o ba ysprydd yr ydych chwi. Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw."

Y mae dyfodiad dystaw, anweledig, ond gwastadol Crist wedi gosod terfyn ar greulonderau o'r fath hyna. Ond ai nid yw gweinidogaeth y llythyren etto yn gwanychu ysprydd cariad mewn enwadau Cristionogol? Pa beth ond gweinidogaeth y llythyren sydd yn attal heddyw yr undeb hwnw am yr hwn y gweddïai Crist, a'r hwn, pan y daw, a dry y byd ato ef? Y mae un enwad mawr yn sefyll ar wahan oddiwrth y lleill,

gan lynu wrth ei olwg lythyrenol am fedydd trwy drochiad. Mae y llall yn cadw draw, gan alw ei hunan "Yr Eglwys," o herwydd ei ffydd yn y llythyren gyda golwg ar esgobion. Y mae ereill yn attal dynion da i fyned yn genadon at y pagan, neu i fod yn fugeiliaid ac athrawon, am eu bod yn mynwesu gobaith y gall Tad tragwyddol fod yn fwy trugarog nag y mae Calfin yn ei ganiatau, neu mae llythyren y Testament Newydd yn ymddangos yn ei osod allan. Ac yn y fel hyn y mae yr ymddiried gwasaidd hwn yn y llythyren yn gwrthwynebu y weddi fawr ddiweddaf hono o eiddo Crist, ar fod i'w holl ddysgyblion ef fod yn un—"Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, ac fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist I." O! chwi, eglwysi ag sydd yn hawlio bod yn ganlynwyr Iesu, ychwanegwch eich cenadon at y pagan wrth y degau o filoedd; ni wnewch byth droi y byd at eich Meistr hyd nes y byddoch wedi dyfod yn un â'ch gilydd yn ei yspryd cariadus Ef.

O herwydd ei fod yn fyw, y mae gan y Beibl ei yspryd a'i lythyren —ei enaid a'i gorff. Y mae gan bob peth byw ei yspryd a'i lythyren —ei enaid a'i gorff, a phan y mae y corff a'r llythyren yn cyfnewid ac yn myned heibio, yr yspryd yn unig yw yr hyn sydd yn rhoddi bywyd, ac yn anfarwol.

Nid yr hyn y mae dyn yn ei ddywedyd, nid ei broffes, nid yr hyn sydd weledig ac allanol, sydd yn gwneyd y gwir ddyn. O'r tu ol i'r rhai hyn y mae yspryd y dyn. Gall ei eiriau fod yn deg a doeth, ei ymddygiad mewn ymddangosiad yn ddifai; ond y mae yna rywbeth allan o le yn ei dôn, rhywbeth bach ac isel yn ei yspryd, yr hyn sydd yn dangos nad yw ef ddim yn *sound* oddifewn. Y mae fel coeden deg yr olwg, ond yn *hollow* yn y canol. Nid oes iddo wreiddyn mewn argyhoeddiad gonest, neu amcan didwyll, ac mewn awr o brofedigaeth, gwywa. Y mae ganddo lythyren daioni, ond nid yr yspryd.

Ac, ar y llaw arall, gall dyn ymddangos yn allanol yn annghredinioi, a gall ystyried ei hunan yn wrthwynebol i Grist; gall gael ei ddosparthu gyda phublicanod a phechaduriaid, ac etto, yn fewnol ac heb yn wybod iddo ei hun, fod yn meddu yspryd ffydd.

Mae yn rhaid i grefydd gael ei barnu wrth ei hyspryd yn fwy nâ dim arall, o herwydd, mewn crefydd, yr yspryd yw y peth hollbwysig. Mae cyffesiadau mawrion yr eglwysi yn esgeuluso gosod allan yr elfen fywiol mewn crefydd. Nid ydynt yn gosod pwys ar gariad, yr hyn, medd Paul, yw cyflawniad y ddeddf, ac yn fwy nâ ffydd a gobaith, ac am yr hwn y dywed Ioan fod yr hwn sydd yn caru yn trigo yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Nid oes un o honynt yn dywedyd, "Yr ydym yn credu yn Nhadoldeb Duw ac yn mrawdoldeb dyn. Yr ydym yn credu ein bod i garu Duw â'n holl galon, a'n cymmydog fel nyni ein hunain." Ond dyma'r wir Gristionogaeth ag sydd i achub y byd. Yr yspryd hwn ag sydd yn gweled mai cariad yw Duw, fel yr oedd y dysgybl anwyl yn tystiolaethu—yr yspryd hwn ag sydd yn caru Duw, ac yn caru dyn hefyd—dyma'r hyn sydd yn gwneuthur gwir eglwys i Grist—corff anweledig Crist—y lefain ag sydd i lefeinio yr holl does. Lle mae hyn yn bodoli, yn yr Eglwys, neu yn y byd, y mae gwir

Gristionogaeth i'w chael yno. Lle nad yw yn bodoli, gall yr eglwysi fod yn llwyddiannus yn allanol, a chael enw eu bod yn fyw, ond y maent mewn gwirionedd yn feirw.

Mae yr holl ymresymiadau sydd wedi eu gwneyd yn erbyn Cristionogaeth wedi eu gwneyd yn erbyn ei llythyren—yn erbyn credöau, a ffurfiau, a phethau nad ydynt hanfodol i Gristionogaeth. Pwy erioed sydd wedi ffeindio bai ar yr yspryd Dwyfol ag sydd yn cymmeryd trugaredd ar y tlawd, yn tosturio wrth yr hwn sydd yn dyoddef, yn rhoddi cyssur i'r trallodus, ac yn rhoddi gobaith i'r pechadur. Mae amheuwyr a gwawdwyr yn caru chwilio bai mewn Cristionogion proffesedig; ond pwy byth sydd yn dywedyd gair yn erbyn yspryd pur Fenelon, dynoliaeth hunan-ymwadol Livingstone, a dyngarwch Howard. Nis gall neb ddywedyd dim yn erbyn yspryd gwirionedd, cyfiawnder, gonestrwydd, cariad, y rhai sydd yn myned i ba le bynag y mae gwir yspryd yr Efengyl yn myned.

Meddai Iesu, "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt a bywyd ydynt." Yn hyn y mae eu nerth anfarwol: "Nef a daear a ânt heibio, ond fy ngeiriau I nid ânt heibio ddim." Y mae hon yn broffwydoliaeth hyf, ond un sydd yn sicr o gael ei chyflawnu. Yr wyf yn meddwl y byddai i ddynion lynu yn dŷn wrth eiriau Iesu pe byddai iddynt annghofio pob peth arall. Ni roddodd efe orchymyn iddynt gael eu hysgrifenu. Mae yn debygol fod llawer o honynt wedi myned i golli, ac nis gellir byth gael gafael ynddynt. Ond y mae y rhai sydd yn aros yn llawn o yspryd yr Iesu, a'r yspryd nefol hwn yw y peth mwyaf ei werth i ni o bob peth arall. Dywedai Paul nad oedd ef yn gofalu am adnabod Crist Iesu yn ol y cnawd, yn gymmaint ag fod yspryd Crist wedi cael ei ffurfio o'i fewn, yn obaith gogoniant. Y mae yr hwn sydd yn feddiannol ar feddwl Crist—yr hwn sydd yn feddiannol ar yspryd Crist—y mae ef yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo yntau. C.

HEN FYNWENT LLWYNRHYDOWEN.

Hen fynwent y Llwyn, wele fan cyssegredig
  I lawer un ysig, gwywedig, ei fron;
Nid am fod un mawredd á hi'n gyssylltiedig
  Mae enw mawledig yn perthyn i hon:
Ni chenfydd y dyeithr un gwychder neillduol
  Wrth rodio'n hamddenol trwy'r fangre ei hun;
Nid oes i'r beddfeini orharddwch arddunol,
  Ond pruddglwyf gorlethol ddelwedda bob un.

Ni chaiff yr athronydd, er maint ei gywreinrwydd,
  Un swyn na theleidrwydd fan yma i'w ran;
'Does dim ond dwys deimlad yn mron y sylwedydd
  A bair iddo ganfod gogoniant y fan:

Beddfeini o fynor ni chludant ei chlodydd,
  Rhodfaoedd ysplenydd ni ddyrchant ei bri,
Gogoniant celfyddyd o'i chylch ni chanfyddir—
  Rhyw wledig symlrwydd a geir ynddi hi.

Er hyny, mae hanes yn gymhleth â'i henw,
  A'i deil yn bur loew tra Clettwr ar daith;
Trwy ddoeth ymdrechiadau y rhai, erbyn heddyw,
  Ynt yma yn gorphwys heb feddwl nac iaith.
Pan ydoedd gau dybiau trwy'n hardal yn lledu,
  Gan wawdio a baeddu rhinweddau dan draed,
Ein ffyddlawn hen deidiau gawn yma yn llechu,
  Yn borth i'r gwirionedd pryd hyny fe'u caed.

Os nad yw eu henwau ar lechres boneddion,
  Ac ond y dywarchen i ddangos eu bedd;
Tra deil Llwynrhydowen yr hen egwyddorion,
  Bydd adgof o'r dewrion yn loew ei wedd.
Rhagorol ddyngarwyr a gawn yma'n gorphwys,
  Oraclau yr Eglwys, gwyr gwiwlwys eu gwaith;
Y wlad a alarai o'u rho'i yn yr amdo,
  Cymdeithas hyd heddyw sy'n teimlo y graith.

Ond wele, hwy gawsant glyd noddfa rhag gwaeau,
  A'r llidiog drallodau o hyd oe'nt yn ddwyn
Wrth noddi dynoliaeth, a gwylio ei breinniau,
  Yn mynwes ddirwystrau hen Fynwent y Llwyn.
Y tlawd a'r cyfoethog gawn yma'n cydlechu,
  Heb anian na gallu i drechu trwy drais;
Pob gradd a phob oedran fel plant o'r un teulu,
  Heb awydd dyrchafu; digonwyd pob cais.

'R amddifaid a'r gweddwon sydd heddyw'n galaru
  Ar ol yr anwyliaid a garent mor fwyn,
Terfysgoedd eu henaid sydd fel yn tawelu
  Yn ymyl eu beddau yn Mynwent y Llwyn.
A phan ddaw Sul Blodau fe harddir y beddau
  Gan lu o rosynau deniadol eu gwedd;
Pob un yn prudd nesu i osod ei *bosi*,
  Er cof o'r hen gyfaill f'ai'n pydru'n y bedd.

Bu iawnder yn wylo tuallan i'w muriau
  Pan roddwyd ei rhyddid gan estron dan glo;
Yn anial anhygyrch bu'r llanerch hir ddyddiau,
  Mewn gwawd trwy yr oesau adgofir y tro.
Ond wele, daeth angel cyfiawnder a'i gwyliai,
  Dadfolltwyd y cloau, a'r pyrth ddaeth yn rhydd;
'R amddifaid fel cynt gawsant dywallt eu dagrau
  Ar feddau'u hanwyliaid; mawl byth am y dydd!

Dych'mygaf fod goslef yn si yr awelon
O barch i'w thrigolion, wrth basio uwch ben;
Ac nad yw y gwlith sy'n arianu ei blodion,
Ond dagrau hiraethlawn gymmylau y nen.
Yn iach, yr hen fynwent, rhaid 'madael am ronyn,
Boed heddwch i lwch ein hanwyliaid barhau;
Mi welaf taw clau daw'm dydd inau i'w derfyn,
Awr gorphwys ddaw'n sydyn; mae'r nos yn neshau.

DEWI GLAN CERDIN.

CYMMERIAD OD.

MAE plwyf y Gelli, lle y trigiannai yr hen bererin wyf yn bwriadu ei ddesgrifio fel un oedd yn meddu ar deithi y pennawd uchod, yn blwyf prydferth iawn. Os ydych am weled natur yn ei gogoniant, dyma'r fan. Mae beirdd wedi canu, ac ysgrifenwyr enwog wedi canmol golygfeydd rhamantus ucheldiroedd yr Alban, neu fynyddoedd banog Gogleddbarth Cymru, ac fel y dywed yr hen bennill,

"Rhai ant i wledydd pell
I wel'd hynodion byd,
Pan allent lawer gwell
Yn nhre' foddloni 'u bryd."

'Rwy'n credu pe ymwelai rhagor o'm cyd-ddynion â'r plwyf hwn, a gweled yr arddunedd swynol sydd yn ymagor o flaen y llygad ar bob cam, y synent am eu bod wedi bod cyhyd yn anwybodus o gymmaint cyfoeth mewn tlysineb a mawredd. Mae pob dosparth o ddynion, yn misoedd mwyn yr Haf, yn ceisio dianc am ychydig ddyddiau o dwrf eu gorchwylion, a chwilio am adgyfnerthiad i'w cyrff lluddiedig ar lan y môr, yn nghanol clogwyni a rhaiadrau syfrdanol, neu, wrth ddringo'r mynydd nad oes neb bron, ond yr eryr ysglyfaethgar, wedi sangu ar ei goryn tàl oddiar foreu'r crëad. Pe gallwn ddangos i'r cyfryw ddynion brydferthion ein plwyf bychan ni, 'rwy'n sicr y ceid eu gweled yn ymdyru yma yn finteioedd. Ac os yw y darllenydd yn foddlon ymddiried ei hun i fy arweiniad am funyd neu ddwy, gwnaf godi cwr y llen iddo, fel y gallo gael cipolwg anmherffaith, a barnu drosto ei hunan. Wel, ynte, rhodded ffrwyn i'w amgyffred, a cheisied ddirnad ein bod ni'n sefyll ar glogwyn—carnedd, medd rhai, sydd yn cuddio gweddillion rhai o'r hen gewri a gwympwyd mewn ysgarmes pan oeddynt yn brwydro dros freinniau eu gwlad. O'r tu dwyreiniol i ni y saif craig uchel ag sydd yn raddol yn gorfod ymostwng i'r difrod mae dulliau diweddar gwareiddiad yn ei wneyd ar brydferthion anian, ac ar ei chopa mae olion hen gastell. Ychydig o hwn sydd yn aros heddyw, ond

wrth sylwi, ni a welwn yn eglur amlinelliad o'r ffos a amgylchai'r castell yn yr hen amser gynt, ac mae yma un ystafell mewn 'stad dda o gadwraeth, ond ei bod yn front tuhwnt i ddesgrifiad. Yn gywir ar ein cyfer, mae mynwent y plwyf, Macpela'r fro, ac ymgyrchfan gyssegredig llawer teulu. 'Does dim neillduol yn perthyn i'r Eglwys nâ'r fynwent, ond eu hynafiaeth, ac mae'r hen adeilad wedi myned yn adfeilion er's llawer dydd, oddigerth un talcen, yr hwn sy'n cael ei gadw yn ofalus, a'i anwylo am ei henaint. Rhwng y fynwent a'r castell y soniais am dano, i lawr yn ngwaelod y cwm, murmura'r afon sydd wedi rhoddi ei henw i'r cwm. Gellir cael rhyw syniad am ryferthwy'r dwfr trwy edrych ar yr argraff ryfeddol y mae wedi ei wneyd ar y cerryg yn nghwrs y canrifoedd. Ychydig islaw i ni, ar ein hochr ddeheuol, croesir yr afon gan bont, ac ond i'r darllenydd ddychymygu ei fod yn sefyll arni pan fo'r afon yn llawn hyd at ei cheulan ar ol llif trwm, mae yr olygfa yn fawreddog dros ben. Os tremia i lawr dros un ganllaw, fe wel y cerryg wedi eu cafnu fel pe b'ai gan gelfyddydwr medrus, ac wedi eu naddu yn llyfn, fel pe byddent lestri parch rhyw bendefig yn yr hen amser, pan oedd y fath bethau mewn bri yn ein gwlad. Os plyga dros y ganllaw arall, fe genfydd yr afon yn disgyn ar un naid i lawr i'r dyfnder obry gyda rhuad daeargryn, ac yno yr ymferwa ac yr ymrolia'r dwfr, ac ar yr olwg gyntaf, gallech feddwl eich bod yn gweled crochan o laeth yn berwi mewn digter. Islaw y crochan berwedig hwn, mae yr afon drachefn yn cymmeryd ei chodwm dros gribyn uchel o graig yn rhaiadr chwyrn ag y mae ei swn yn ddigon i bensyfrdanu dyn. Ar waelod y rhaiadr mae pwll mawr llydan, yr hwn, am y rheswm ei fod yn cael ei gysgodi o bob tu gan goed tewfrig, sydd yn cael ei alw yn "Bwll Du," ac mae'r olwg arno, hyd y nod yn nhesni'r haf, yn ddu a gauafaidd. Ar lecyn o wastattir gerllaw i'r pwll hwn y safai, ryw hanner can' mlynedd yn ol, fwthyn hynod ddestlus, yn amgylchynedig â choed, ac yma y dywedir y preswyliai am ryw yspaid y cymmeriad ag wyf am osod ychydig o'i deithi gerbron y darllenydd. Ei enw oedd William Shon. Mae yn debyg iddo gael ei eni mewn rhyw ran o Sir Gaer, ac os wyf yn cofio'r traddodiad yn iawn, tua chymmydogaeth Cilycwm. Er yn ddyn heb fawr addysg, yr oedd ganddo gof gafaelus iawn, a dyddorol oedd gwrando arno yn siarad am y ffermwr hwn a'r gweithiwr arall. 'Doedd dim gorphenol yn ei hanes, oblegyd yr oedd hen gyfeillion ag oeddynt yn huno gyda'r tadau er's blynyddoedd yn fyw iddo ef, a siaradai am danynt yn y presenol, fel rhai y gallai ymgomio â nhw, a dal cyfeillach feunyddiol â nhw. 'Does dim gwybodaeth pa oedran oedd pan symmudodd i blwyf y Gelli, nâ pha beth a barodd iddo adael ardal ei enedigaeth. Ond am yn agos i hanner canrif, bu yr hen William Shon yn adnabyddus i drigolion ei ardal fabwysiedig fel dyn cywir, gonest, a llawn o ddiniweidrwydd plentyn. Yr oedd yn hollol rydd oddiwrth ofalon y byd, heb dòn byth yn aflonyddu gwyneb llyfn ei fywyd, ac fel y dywed un, yr oedd "fel dydd Sul tragwyddol i fod yn ei gymdeithas." Ei brif hynodrwydd oedd ei ffraethineb, ac mae ei ymadroddion ffraeth ar lafar eylch eang o'i adnabyddiaeth hyd y dydd heddyw. Un tro, pan oedd henaint wedi ei

orddiwes, cafodd ei stopio yn y gwaith, gan y tybiai'r meistr, digon tebyg, na cheid digon o elw oddiwrtho. Aeth yr hen wr tua thref yn bendrwm iawn, ac yn anniddig yn y cornel, cwynai ei dynghed arw, a gofynai ar i'r Arglwydd roddi help iddo weddill y daith. "O Dduw," meddai, "beth yw'r achos fy mod yn cael fy nhaflu o'r neilldu 'nawr yn fy henaint, a beth wnaf am fy nghynnaliaeth: mae'r cyfan yn fy erbyn. Ond," meddai, gan neidio ar ei draed, "mi ddarllena' 'Meibl er *spite* i ti a phawb." Dro arall, cafodd ei stopio am ryw reswm neu gilydd, ac wedi iddo fyned adref, dechreuodd ofyn i'r Bod Mawr felldithio'r meistr oedd wedi bod mor galed wrtho, ond cyn bron iddo yngan ei felldith, dyma genad oddiwrth y meistr yn 'mofyn yr hen William 'nol i'r gwaith. "Wel, William," meddai rhywun wrtho, "beth am y felldith wedi'n?" "O gelwais hi nol," meddai yr hen wr. Dylaswn ddweyd fod cwmmwl wedi dyfod dros ei feddwl, yr hyn a fu'n achos iddo gael ei osod dan reolaeth mewn *asylum*. Yr oedd y pryd hwn yn briod a phlant yn dysgwyl wrtho am eu cynnaliaeth. Ond trwy drugaredd, ni fu yn hir yn y cyflwr hwn: esgynodd y meddwl i'w orsedd drachefn, a chafodd yntau ddyfod allan. Dyddorol oedd gwrando arno yn adrodd ei deimlad pan oedd y caddug hwn yn ymgrogi drosto. Dywedai fod y cyfan yn ymddangos fel breuddwyd iddo.

Yn y cysgod ac yn y tes, ei hoff gydymaith oedd ei Feibl. Dyma'r hyn a roddai help a chyssur iddo yn ngwyneb yr oll, a daeth, yn ddiamheu, yr un mwyaf hyddysg yn yr holl ardal yn nyfnion bethau Duw. Yr oedd yn hoff o ddadleu, ond pan gwrddai â rhywun cydradd â'i hunan, 'wnai efe ddim sefyll ei dir, ond neidiai at bwnc arall. Yr oedd ganddo hefyd yr arferiad, pan wedi ei orthrechu mewn dadl, i godi ar ei draed, fel pe ar fedr myned allan, ac yn y sefyllfa hono arllwysai ar ben ei wrthwynebydd ffrwd o arabedd ffraeth, a chyn y gallai neb gael amser i ddweyd gair, yr oedd yr hen William tu faes i'r drws. Yr wyf yn cofio un enghraifft nodedig o hyn. Yr oedd wedi bod mewn dadl frwd ag Undodwr selog o gymmydog iddo, yr hwn a lwyddodd mewn byr amser i'w yru i gornel, a phan deimlai William ei bod hi ar ben arno, dyna ef ar ei draed, ac yn anelu am y drws, ond gan droi yn sydyn at ei wrthwynebydd, dywedai, "Huw Jones, 'glywsoch ch'i erioed am y pregethwr enwog hwnw, Robert Hall? Unwaith, meddyliodd rhai o'i ddiaconiaid ei fod yn pregethu Sosiniaeth iddynt, ac ar ol y gwasanaeth, un Sul, dywedodd rhywrai wrth Hall am y siarad oedd am dano, nad oedd yn pregethu athrawiaeth iachus iddynt. 'O, wel,' meddai Hall, 'mae dynion yn fy nghyhuddo o Sosiniaeth, ydyn' nhw? Wel, frodyr, hyn ddyweda' I, y byddai yn well genyf fi gael fy ngh'lymu wrth gwt y d———l, a'm chwipio naw gwaith *round* i bwll uffern, nâ phregethu Sosiniaeth wrthych,'" a chyda hyny yr oedd William ar ganol y ffordd fawr a'i wyneb tua thref.

Arferai adrodd, gydag arddeliad, am offeiriad i lawr tuag ardal Llanharran, yr hwn oedd yn gweinyddu mewn eglwys nad oedd neb yn ei mynychu ond efe ei hunan a'r clochydd, ac er lladd yr amser foreuau Sul, arferai'r clochydd ddwyn ymborth ac ychydig wlybwr gydag ef, fel y gallai ei feistr ac yntau gael hamdden a thawelwch i ofalu am yr anianol, nad beth am yr ysprydol.

Ond un Sul aeth rhyw *way* tua'r eglwys i weled beth elai'n mlaen yno. Llwyddodd i fyn'd mewn heb i'r offeiriad na'r clochydd ei weled. Yn mhen tipyn dyma'r "gwas" yn dechreu hulio'r bwrdd, gan estyn tamaid a llymaid i'r "meistr" yn y pwlpud. Pan oedd yr offeiriad wedi cymmeryd llon'd ei enau o'r ymborth, wele'r gwrandawr yn ddisymwth yn codi ei ben yn y sedd yn union gyferbyn ag ef. Meddyliodd yr offeiriad, druan, mai yspiwr oedd, a chan neidio ar ei draed, â'i enau hyd y dalai, ceisiodd wthio allan y geiriau, "Felly y terfyna yr ail lith," pan nad oedd gair na sill o'r cyntaf na'r ail wedi ei ddweyd. Gallaswn ychwanegu llawer o ystraeon tebyg am helyntion ei fywyd, ond mae hynyna'n ddigon i ddangos ei fod yn od. Bu fyw hyd oedran teg, a bu farw heb gael ond ychydig iawn o gystudd. Er cymmaint oedd ei helbulon, llwyddodd i gasglu ceiniog gryno erbyn tywydd garw, a phennododd yr Undodwr y soniais am dano i edrych fod chwareu teg i gael ei wneyd â'i blant wedi iddo ef huno. Yr oedd ynddo nodweddion ag y byddai'n fraint pe gallai llawer eu hefelychu. Meddai ar gymmeriad pur, ac yr oedd ei lareidd-dra a'i dynerwch yn sawyr bywyd i ba le bynag yr elai. Heddwch i'w lwch.

H———N.

HYFFORDDI'R PLANT.

Mae hwn yn bwnc ag sydd yn gofyn sylw difrifol pob dyn sydd am weled y plant ag sydd yn codi yn cael eu dwyn i fyny, fel y byddo iddynt lanw y cylchoedd y byddant yn troi ynddynt mewn cymdeithas yn ddefnyddiol, Nid ä y pwnc hwn fyth allan o *date*, am fod un da o hyd yn myn'd, a'r llall yn d'od. Yr wyf wedi meddwl llawer am yr ymddyddan a fu rhyngof à chyfaill, yn ddiweddar, ar arferion yr oes a'i chynnydd mewn gwybodaeth mewn llawer cyfeiriad. Mae achos genym fod yn ddiolchgar am hyny hefyd, ac am fanteision addysg a'r gwahanol gyfleusderau sydd gan yr ieuanc i gyrhaedd dysg a gwybodaeth o bethau yn gyffredinol. Fe gaiff plant y werin yn awr ysgol elfenol yn ddigon rhad, fel nad oes achos i un plentyn fod heb addysg elfenol. Mae yr addysg elfenol hon sydd yn cael ei rhoi yn ein gwlad yn anmhrisiadwy. Rhydd gyfleusdra i lawer plentyn tlawd i ddangos ei allu meddyliol, ac agor y drws iddo i weithio ei ffordd i fyny i gyrhaedd safle uchel mewn dysg a defnyddioldeb. Ond er mor dda yw yr ysgolion hyn, nid ydynt yn cyflawnu angenion y plant sydd ynddynt ar ystyr foesol a chrefyddol; am hyny, nid ydynt, fel mae rhai yn dweyd, yn symmud yr angen am Ysgolion Sul, ac am yr addysg grefyddol a ddylid roi i bob plentyn,—addysg na cha llawer plentyn mewn un man arall. Ni ellir mewn ysgol ddyddiol, lle mae plant â'u rhieni o wahanol farnau crefyddol, ddysgu egwyddorion crefydd heb ddolurio teimladau rhai o honynt. O herwydd hyny, mae yn ddyledswydd ar bob eglwys i ofalu am addysg grefyddol y plant ag sydd yn perthyn iddi.

Mae yn ffaith fod llawer o rieni yn ofalus iawn am roi addysg fydol *(secular)* dda i'w plant, er mwyn eu gwneyd yn gymhwys i wahanol alwedigaethau bywyd, megys cyfreithwyr, meddygon, offeiriaid, masnachwyr—un i'r gelfyddyd hon, ac un arall i gelfyddyd arall. Mae rhieni, fynychaf, yn rhoddi i'w plant y swyddi mwyaf ennillfawr a allant eu cael iddynt. Nid ydynt i'w beio, ychwaith, am wneyd eu goreu drostynt ar ystyr fydol; mae yn ddyledswydd arnynt. Y drwg yw fod llawer nad ydynt yn ymdrechu rhoi un addysg arall iddynt. Mae yn ffaith fod llawer o rieni sydd yn ofalus am addysg fydol eu plant yn esgeuluso braidd yn gyfangwbl eu haddysg foesol a chrefyddol, heb ystyried y dylai addysg foesol ac addysg grefyddol hefyd fod y tucefn i bob addysg arall, yn egwyddor sylfaenol y cymmeriad personol, ar ol tyfu i fyny; y dylai fod yn elfen lywodraethol eu bywyd wrth ddylyn eu gwahanol alwedigaethau yn y byd. Diffyg meddiannu yr egwyddorion hyn sydd wedi bod yn achos i arwain llawer dyn ieuanc i ddystryw, pan wedi gadael ei rieni, a sefydlu yn mhell yn mhlith dyeithriaid, heb neb i ofalu am dano, na rhoi iddo air o gynghor, pan yn cwrdd â themtiasiynau ag sydd yn gofyn penderfyniad cryf i'w gwrthwynebu. Os na fydd y meddwl wedi ei ddysgyblu, a'i ddwyn i garu purdeb, sobrwydd, uniondeb, a gwir sancteiddrwydd, ac os na fydd wedi ei ddysgu i gashau cyfeddach, anniweirdeb, a dyfyrwch ffol, nid oes ond gobaith gwan y bydd iddo sefyll heb syrthio. Pan gwrddo â'r gwahanol brofedigaethau ag mae yr ieuainc yn agored iddynt, y plentyn sydd wedi ei ddysgyblu yn dda a'i egwyddori yn ngorchymynion yr Efengyl, ac wedi cael ei gadw o dan attaliadau cymmedrol, heb gael gormod o'i ffordd ei hunan, yw y tebycaf o sefyll. Pwy nad yw wedi profi y niwed sydd yn codi o bryd i bryd oddiar esgeulusdod yn nygiad i fyny yr ieuainc? Mae canlyniadau pwysig o beidio hyfforddi plentyn yn mhen ei ffordd, a'i arwain i feddwl a gweithredu fel y dylai, a sylweddoli iddo ei hunan y daioni sydd o ddylyn esiamplau pur yr Iesu, a'r drwg sydd yn sicr o ganlyn pob trosedd o'r deddfau a roddodd i ddyn i'w cadw. Mae plentyn sydd yn cael ei ddysgu i ennill ei fywioliaeth trwy ddiwydrwydd â'i ddwylaw ei hunan, ac yn cael ei ddysgu i ddefnyddio ei ennill yn iawn, mewn ffordd dda, ac wedi ei hyfforddi i fyw yn foesol, i ddylyn ffyrdd rhinwedd a chrefydd, o dan fwy o rwymau i'w rieni na'r plentyn sydd yn derbyn llawer o gyfoeth ac addysg fydol hefyd. Ond o herwydd na chymmerodd ei rieni na thrafferth na gofal i'w ddwyn i fyny yn ofn Duw, a'i ddysgu i fyw yn gymmedrol, i garu bywyd pur, ac i rodio ar hyd ffyrdd uniawn y nef, mae hwn fel milwr heb ei ddysgu i drin arfau, yn myned i faes y frwydr i gwrdd â'r gelyn, a digon o arfau ganddo, ond yn methu gwybod y ffordd i'w harferyd er amddiffyn ei hunan. Yn gymmaint na allai eu defnyddio, yn cael ei orchfygu yn rhwydd gan ei wrthwynebwr.

Y mae yr un canlyniad niweidiol o esgeuluso dysgu egwyddorion yr Efengyl i blant. Y maent yn agored i gael eu gorchfygu gan demtasiynau ag sydd braidd yn sicr o'u cwrdd. Y mae amser pan y gall yr annogaeth leiaf fod yn foddion i

attal trallod mawr. Mae yn bossibl i air o gynghor mewn pryd wneyd mwy o ddaioni i ragflaenu drwg na all yr ymdrech fwyaf ei wella ar ol iddo gymmeryd lle. Mae un peth yn galw am sylw neilldduol rhieni pan fyddo eu plant yn eu gadael, ac yn myned i sefydlu mewn lleoedd dyeithr iddynt: dylent, os yn bossibl, eu dwyn i adnabyddiaeth â rhyw bersonau a deimlant ddyddordeb ynddynt—y gallant ymddiried ynddynt am gyfarwyddyd pan mewn angen am dano. Fe ddylai rhieni hefyd edrych i fewn pa le a pha fodd y mae eu plant i dreulio eu Sabbothau. Nid wyf yn amheu nad oes llawer o rieni yn edrych ar hyn yn hollol ddibwys. Wrth y cyfryw, beiddiaf ddweyd eu bod yn gamsyniol. Mae o'r pwys mwyaf i'w plant dreulio eu Sabbothau a'u dyddiau gwyl mewn ffordd dda. Dylai y Sabboth fod yn ddydd rhydd oddiwrth ofalon a llafur yr wythnos: fe ddylai gael ei dreulio mewn addoliad, a throi y meddwl oddiwrth bethau daearol at Dduw, Tad ein hysprydoedd. Dydd i adeiladu ein tŷ ysprydol yw hwn—i ddarllen Gair Duw a'i fyfyrio, fel y byddo yn gyfarwyddyd i weithredu, ac yn nerth i sefyll yn erbyn arferion drwg y byd ag sydd yn rhy fynych yn fagl i'r ieuainc dibrofiad. Pe gwnai dynion ieuainc gadw yr addoliad yn rheolaidd ar y Sabboth, a rhoddi eu gwasanaeth i'r Ysgol Sul, byddai yn foddion i'w cadw rhag llawer temtasiwn ag mae cynnifer o ddynion ieuainc wedi methu eu sefyll. Bydded iddynt gofio mai eu hamser hamddenol hwy sydd beryglus iddynt—nid yr amser maent wrth eu gorchwylion; ond wedi eu gadael—pan dreuliant eu hamser yn ol eu dewisiad eu hunain. A chan mai ar y Sul y mae mwyaf o amser ganddynt, dyma yr amser mwyaf peryglus iddynt. Ond i rieni ofalu am eu plant yn ieuainc, eu harfer i fyn'd i'r Ysgol Sul, a'r addoliad cyhoeddus, tra byddont dan eu gofal, a'u hannog i gadw yr un arferiad yn y blaen, lle bynag y byddont yn aros, fe fyddant yn fwy tebyg o werthfawrogi cyfleusderau i gynnyddu mewn gwybodaeth Ysgrythyrol, ac ymarferiad o wahanol ddyledswyddau crefydd, nâ'r rhai na chawsant eu dwyn i fyny gan eu rhieni i werthfawrogi y sefydliadau hyn, ac i fod yn gyfranog o'u daioni, trwy eu dwyn dan eu dylanwadau.

Mae hefyd yn golled fawr i blant, ar ol tyfu i fyny, os na ddangosir iddynt y gwahaniaeth sydd rhwng un sect a'r llall yn eu golygiadau ar bynciau athrawiaethol, y rhai a ystyrir yn bynciau sylfaenol crefydd. O herwydd hyn, maent dan anfantais fawr i ffurfio barn o'u heiddo eu hunain, ac i ddewis y syniadau mwyaf rhesymol a goleuedig. Oblegyd nad oes ganddynt un farn o'u heiddo eu hunain, maent yn agored i gael eu harwain gan bob awel dysgeidiaeth. O un tu, yn agored i gael eu harwain i benboethni crefyddol; i orphwys ar ddefodau a seremoniau gwag-offeiriadaeth dwyllodrus. Neu, o'r tu arall, i gael eu gyru i wrthod gwirioneddau syml yr Efengyl, o herwydd fod athrawiaethau gwrthun, croes i reswm, profiad, ac Ysgrythyr hefyd, yn cael eu cymhell arnynt fel gwirioneddau y rhaid eu credu, neu fod yn wrthodedig gan Dduw. Fel y gellir dysgwyl, mae rhai o deimladau tyner yn well ganddynt wrthod Cristionogaeth nâ chredu fod Duw wedi dwyn un dyn i'r byd i gael dyoddef poenau tragwyddol ar ol myned o hono, a'i fod wedi

arfaethu rhai i ddedwyddwch, ac ereill i wae, yn ddiystyr o'u cymmeriadau personol. Mae y rhai sydd yn groes i ddysgu athrawiaethau crefyddol i blant, yn gystal ag ereill sydd, o esgeulusdod a difaterwch, yn eu gadael mewn anwybodaeth am wahanol farnau crefyddol, yn eu gosod yn agored i gael eu dysgu gan ereill i gredu yr hyn a ystyriant nad yw wirionedd, yr hyn hefyd sydd yn niweidiol iddynt. Onid yw yn ddigon o reswm dros roddi addysg athrawiaethol iddynt? Mae yn wir fod llawer o resymau gan rai dros beidio dysgu athrawiaethau crefyddol i blant, y cyfryw na chaniata lle i mi eu henwi yn bresenol. Ond y ddau reswm sydd wrth law bob amser yw: nad yw eu meddyliau wedi eu dadblygu yn ddigonol iddynt allu gwahaniaethu rhwng un athrawiaeth a'r llall, a gwerthfawrogi un fwy nâ'r llall. A'r rheswm arall yw y gwneir llawer o ddefnydd o hono: nid yw dynion, meddant, yn cydweled gyda golwg ar athrawiaethau crefydd, a thrwy nad yw dynion yn gallu cyduno am yr hyn sydd iawn, fe ofynant y cwestiwn gyda llawer o hyfdra, fel pe bai yn anatebadwy, ac yn ddigon i argyhoeddi pob dyn diragfarn mai hwy sydd iawn. Eu cwestiwn a ofynir yw, "Beth a ddysgir i blant?" Ateb yr ysgrifenydd yw—Dysged pob dyn yn onest yr hyn mae yn gredu sydd wir, fel y gallo feddiannu cydwybod dda tuag at Dduw a dyn. GWILYM AP GWILYM.

EILUNOD ARGLWYDD BACON.

WRTH awgrymu fod yr uchod yn fwy adnabyddus yn Lloegr nag yn Nghymru, nid wyf am foment am awgrymu fod y Cymro yn fwy rhydd nag yw y Sais oddiwrth ddylanwad yr hyn a feddylir wrthynt. Yr hyn a feddyliaf yw, fod llyfr Arglwydd Bacon, sef y *Novum Organum*, yn fwy adnabyddus i'r Sais nag i'r Cymro; ac y mae hyny yn naturiol, am nad yw y llyfr hyd yma ddim wedi gwneuthur ei ymddangosiad mewn gwisg Gymreig. Hyd yma y mae llyfrgell y Cymro wedi syrthio yn fyr iawn o'r *ideal* sydd gan John Morley am yr hyn y dylai llyfrgell pob dyn fod; a dichon y bydd dwy farn a fyddai yn ddymunol fod llyfrgell pob Cymro yn cynnwys mil o lyfrau. Dylai fod mwy o awydd am wybodaeth nag y sydd yn ddiamheu; ond y mae yn dost meddwl, po leiaf fyddo gwybodaeth dyn, lleiaf i gyd, wrth bob tebyg, fydd ei awydd am wybodaeth.

Yn ein hymchwiliad am wybodaeth, y mae llawer o rwystrau ar y ffordd; ac wedi deffroi yr awydd, bydd yn dda i ni allu gochelyd y rhwystrau i gyrhaedd gwybodaeth. Gesyd Bacon y rhwystrau i lawr dan yr enw *Eidola*, yr hwn y gallwn ei gyfieithu yn *Eilunod*, er nad yw meddwl Bacon, efallai, ddim yn hollol amlwg. Mae rhyw bedwar math o eilunod ganddo, sef Eilunod y Genedl, Eilunod yr Ogof, Eilunod y Farchnad, ac Eilunod y Chwareudŷ.

1. Eilunod y *Genedl* ydynt y rhai a berthynant i ddyn fel dyn. Codant oddiwrth y duedd sydd yn y dyn i osod ei hunan yn safon pob peth, a'i ddysgwyliad fod pob peth i gael ei wneuthur, yn ol ei dyb ef,

o'r hyn y dylai pethau fod; y meddwl dynol yn cael ei osod mewn ffordd i adlewyrchu yr allanol.

2. Eilunod yr *Ogof* ydynt y neillduolion personol a berthynant i bob un. Mae gan bob un ei ogof ei hun, lle nad yw y goleuni yn gallu llewyrchu yn ei holl burdeb. Y mae dynion, meddai Heracleitos, yn ceisio am wybodaeth yn eu byd bach personol eu hunain, ac nid yn y byd mawr cyffredin.

3. Eilunod y *Farchnad* a ffurfir oddiwrth berthynas a chyssylltiad dyn â dyn. Cymdeithasir trwy gyfrwng iaith, ac y mae geiriau ar wahan a chyda'u gilydd o hyd yn agored i gael eu camddeall, ac i daflu pethau i ddyryswch.

4. Eilunod y *Chwareudŷ* ydynt y cyfryw ag a ddeuant i feddyliau dynion oddiwrth haerdybiau amrywiol systemau neillduol athrawiaeth. Y mae y rhai hyn yn amrywiol a lluosog iawn.

Rhywbeth tebyg i hynyna, yn fyr, ydyw eilunod Arglwydd Bacon, ac i ochelyd y rhai hyn y dylem fod o hyd ar ein gwyliadwriaeth yn ein hymchwiliad am wirionedd.

Chwilio'r ydym am wirionedd,
Prif oleuni Teyrnas Nef;
Par i'n hymbwyll Dduw'r trugaredd,
Ganfod ei wynebpryd ef.

NODYNAU GWASGAROG.

Mr. Gol.,—Mae llythyr penigamp Mr. D. Jones, Castell Elwyn, yn Yr Ymofynydd am fis Ionawr diweddaf, wedi rhoddi argraff ddofn ar fy meddwl. Yr wyf wedi ei ddarllen drosodd a throsodd, ac y mae bob tro yn fy moddloni yn fwy-fwy. Diolch i Mr. Jones am ei brofiad a'i annogaeth, a'r cerydd cudd sydd yn ei lythyr. Mae y sawl sydd yn adnabod teulu y Castell yn gwybod yn dda mai nid chwythu ei gorn er mwyn hunan-sylw wna Mr. Jones, ond er cymhelliad i ni i'w ddylyn mewn gweithgarwch, ffyddlondeb, brwdfrydedd, ac esiampl dda a gonest fel Undodwr a Christion.

Llythyr iawn, a llawn bob llinell,—cariad
Yn cyweirio 'i sgrifell;
O ochr y gwir ni cheir gwell,
Os cystal, Jones y Castell.

O'i gu, ystyw, uchel Gastell—Elwyn,
Fe'n gwylia heb ddichell;
I'n herbyn daw o hirbell
A galwad i'r wiw-wlad well.

Un ffyddiog, gwresog, o'i gryd,—yn para
'Run perwyl hyd weryd;
Gwn, o'i fedd cwyd, gwyn ei fyd
Yn hyf elfen nefolfyd.

Carwn yn fawr pe byddai holl ddosparthwyr Yr Ymofynydd yn efelychu Mr. Jones yn ei ymdrech. Collais I, drwy farwolaeth, un dosparthwr tebyg iddo, a hyny cyn i'r gyfres newydd ddiweddaf o'r Ymofynydd ddyfod allan; ac y mae yn ofidus genyf ddwyn gerbron y cyhoedd oerfelgarwch rhai o'n dosparthwyr yn Aberdar, trwy ddweyd nad oes un o honynt wedi bod mor foneddigaidd i mi, nac mor ffyddlon i'r Ymofynydd, â gofyn i mi am ei gymmeryd oddiar hyny hyd yn hyn; ond yr wyf drwy y cyfan wedi llwyddo i'w brynu neu ei fenthyca.

MR. JONES FEL DOSBARTHWR.

Abertha, fel dosbarthwr,—ei hunan,
Er ennill derbyniwr,
Aml adegau, mal diwygiwr,
Gyda hwyliau, llygad helwr,
Myn uwch bronydd, mwyn wych brynwr,
Rhadlawn, dilys, prydlon dalwr;
Un diball, gwiwgall, a gwr—goleubwyll,
Yw'n didwyll Undodwr.

Ar flwyddyn y Juwbili, yr wyf fi, Mr. Gol., wedi tori cynllun i gael yn fisol *ddau gopi* o'r Ymofynydd am y flwyddyn hon o leiaf. A wna ereill yr un modd? A fedrwn ni ddyfod yn fwy selog dros ein hunig fisolyn? Nid trwy wneuthur cân iddo, ond trwy hyrwyddo ac helaethu ei gylchrediad.

Gwael heb lwydd gwyl Juwbili—ein hanwyl
Frenines eleni;
Undodiaid, anwyliaid, ni
Charwn i'n hymdrech oeri.

Mae o fewn Yr Ymofynydd—foddion
I feddwl efrydydd;
Ni yn galw ar ein gilydd
O lwyd darth at oleu dydd.

Yr wyf o'r un farn uchel â Mr. Jones am Yr Ymofynydd, a gobeithiaf fod y mwyafrif o'i dderbynwyr yn cydweled. Bydded i'r farn gywir hon ddwyn ei ffrwyth ar unwaith. O! Undodiaid, pa le y mae ein gweithredoedd da ni at Yr Ymofynydd a'i ddarllenwyr ieuainc? Dymunaf bob llwyddiant i'r Ymofynydd, ei olygydd, ei ohebwyr, ei ddosparthwyr, ei dderbynwyr, a'i ddarllenwyr. Yr eiddoch yn ffyddlon,

Chwefror. Bayron.

CADW YN DDIGON PELL.

Yr oedd boneddwr unwaith ag eisieu *coachman*. Daeth tri i gynnyg am y swydd. Gofynwyd i'r cyntaf pa mor agos i'r dibyn y gallai yru y cerbyd heb ei ddymchwelyd. Atebodd, "O fewn i fodfedd." Lled dda,

onide? Gofynwyd i'r ail. Atebodd yntau, "O fewn i droedfedd." Nid oedd hwn yn llawn cystal, feallai. Ond pan ddaeth y trydydd, efe a atebodd ei fod bob amser yn ceisio cadw yn ddigon pell oddiwrth y perygl. Mae llawer o ysgrifenu a llawer o chwareu yn y dyddiau hyn, fel pe byddai yn rhinwedd i redeg y cerbyd mor agos ag y gellir i'r dibyn. Pa mor agos y gallwn ni redeg i ymyl uffern, a dianc wedi'r cwbl! Gwell genyf fi ddylyn *coachman number three*, a chadw mor bell ag y gallaf oddiwrth y perygl. Mae llawer yn dysgwyl hyd y nod ar ol myned dros y dibyn i'r lle poeth, na fydd hi ddim yn anmhossibl dyfod oddiyno. Yr wyf finau'n barnu mai y peth doethaf i bob un fydd peidio myned tuag yno, ond yn hytrach gwneuthur pob ymgais i redeg ei gerbyd fel *coachman number three*, yn ddigon pell oddiwrth y perygl. Peidiwch chwareu â'r perygl, blant. Rhedwch eich cerbyd ar hyd yr ochr bellaf i'r heol—yr ochr bellaf oddiwrth y dibyn. Yr hwn a rodia yn uniawn a rodia yn ddyogel.

PREGETH EFENGYLAIDD.

Mae yn ddywediad cyffredin nad yw pregethu Undodaidd ddim yn Efengylaidd, fod Undodiaeth yn hollol amddifad o athrawiaeth iachus. Wrth gwrs, yr ydym ni, fel Undodiaid, yn barnu yn wahanol, ac y mae yn dda genym gredu fod arwyddion am luaws nad ydynt yn mhell o fod o'r un farn â ni. Fe ddywed y *Christian World*, y papyr crefyddol helaethaf ei gylchrediad yn y byd, fod sylwedd yr Efengyl yn y bregeth ar y mynydd. Gwell genym ni, fel Undodiaid, fyned at y ffynnon i gael allan beth yw yr addysg Gristionogol; tra y cawn lawer yn ei cheisio yn *Nghoff Gwynfa* Milton neu yn ysgrifeniadau Calfin, neu Wesley, neu Luther, neu Zuinglius; ond paham yr arosir yno pan y mae yr Ysgrythyr genym ein hunain? ïe, paham yr aroswn hyd y nod gyda'r Apostol Paul pan y gallwn fyned at y ffynnon, at Grist ei hunan. A oes rhai o'r athrawiaethau poblogaidd a *elwir* yn Efengylaidd yn ngeiriau Crist? A ellwch chwi brofi Trindod oddiwrth eiriau Crist? A allwch chwi ffeindio'r Pum' Pwnc yn y bregeth ar y mynydd? At bwy y cyfeirir Gweddi'r Arglwydd? Pwy ydyw gwrthddrych gweddi y "gwir addolwyr" sydd yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd? Ystyr Efengyl yw newydd da. Pa faint o newydd da sydd yn yr athrawiaethau poblogaidd?

HEN WRANDAWYR.

Mae yn perthyn i'n cynnulleidfaoedd lawer o bobl dda ag y carwn weled eu daioni yn cynnyrchu mwy o ddefnyddioldeb—dynion da eu gair, rheolaidd yn eu hymweliadau, ond heb daflu eu hunain ar ffordd y gwaith sydd yn anhebgorol angenrheidiol i lwyddiant yr achos cref-

yddol; yn cyfranu at yr achos, ond yn gadael pob gwaith mewn cyssylltiad â'r achos i ereill. Yr ydym yn ddiolchgar am eu harian, ac am eu presenoldeb, ond y mae etto le—lle i fyned rhag blaen at berffeithrwydd.

"Beth dâl treulio oes i wrandaw
Am oludoedd Dwyfol ras?
Beth dâl clywed am y gwleddoedd
Heb archwaethu dim o'u blas?
Hen wrandawyr,
Peidiwch oedi dim yn hwy.

Wele'r swpper fawr yn barod,
Wele fwrdd Efengyl Duw
'Nawr yn llawn o bob duwioldeb,
Rhoddion rhad i ddynol ryw;
Haleliwia,
Caned teulu'r newyn mawr."—*T. R.*

YSTORI WIR O GARIAD GWIR.

Mor wir yw nad amgylchiadau allanol sydd yn gwneuthur dedwyddwch! Pe'r amlygid cymmaint o dynerwch o'r ddau tu ag a geir yn yr ystori ganlynol, byddai llai o waith yn Llys Ysgariaeth. Dywedir fod yr hanes wedi ei hadrodd gyntaf gan Mr. Spurgeon:—

Gwahoddwyd offeiriad ieuanc gyda'i wraig ieuanc i barti mawr gan un o'r plwyfolion cyfoethog. Yn holl newydd-der ac ardderchogrwydd ei gwisg briodasol, ymddysgleiriai y wraig ieuanc yn mhlith y dorf; nodweddid hi gan ei phrydferthwch, ei bywiogrwydd, a'i gwisg; a phan ddarfu i'w gwr ieuanc, yn ystod yr hwyr, ei thynu ar y neilldu, a dywedyd wrthi mai hi oedd yr harddaf o'r holl gwmni, a bod ei galon ar ymdori o falchder a chariad tuag ati, hi dybiai ei hunan y wraig ddedwyddaf yn y byd. Deng mlynedd yn ddiweddarach, yr oedd yr un gwr a'r un wraig yn wahoddedigion yn yr un ty, lle yr oedd yn gynnulledig gwmni tra thebyg i'r un blaenorol. Gwisgai y wraig yr un wisg ag oedd am dani y tro o'r blaen; ac wrth gwrs, yr oedd wedi ei haltro a'i hadwneyd lawer gwaith, ac yn ymddangos yn hen ffasiwn ac yn *shabby*. Yr oedd gofal a gwaith caled a magu plant ac amgylchiadau cyfyng wedi symmud y rhosynau cochion oddiar ei gruddiau a'r bywiogrwydd allan o'i symmudiadau. Eisteddai ar y naill du oddiwrth y dorf, megys wedi ymdreulio allan gan ofal, a'i meddwl megys yn llawn pryder. Yr oedd y dwylaw bychain yn arw gan waith caled, heb fenyg arnynt, canys yr oedd cyflog y gweinidog yn boenus o fach. Ychydig o'r neilldu safai y gwr dengmlynedd, ac edrychai ar ei wraig, ac fel yr oedd yn sylwi ar ei gwisg dreuliedig a'i hymblyg blin, daeth teimlad o'i ffyddlondeb perffaith amyneddgar a chariadus dros ei galon. A chan edrych i fyny, daliodd hithau ar ei syll-

drem ddifrifol ef, a gwelodd fod ei lygaid yn llanw o ddagrau. Cododd ac aeth ato, ei llygaid megys yn mud-holi achos ei deimlad dwys. A phan ddarfu iddo ei chymmeryd gerfydd ei llaw, a'i harwain allan o'r dorf, a dywedyd wrthi fel yr oedd wedi bod yn meddwl am ei hymddangosiad ddeng mlynedd yn ol, pan yn wraig ieuanc, a pha gymmaint mwy gwerthfawr oedd hi iddo yn awr, a pha gymmaint mwy prydferth, er gwaethaf dwylaw geirwon a gwisg wael, a pha gymmaint yr oedd yn gwerthfawrogi ei holl hunan-aberth, a'i hymdrech a'i gwaith amyneddgar ar ei ran ef a'i blant, daeth megys môr mawr o ddedwyddwch i lenwi ei chalon, a thywynodd goleuni yn ei gwynebpryd a roddodd iddi fwy nâ phrydferthwch ei hieuenctid, ac yn yr holl gwmni nid oedd cwpwl mor ddedwydd â'r ddeuddyn hyn, a'u calonau a'u gwynebau megys yn ymddysgleirio gan deimlad pur a drawsffurfiodd ac a wnaeth yn ardderchog a gogoneddus y llafur a'r lludded yr oeddynt wedi myned trwyddynt.

C. F.

PREGETH.

Gall pregeth fod yn ddysgedig iawn, ac ar yr un pryd fod mor sych a diles ag yw tywod y Sahara. Tyb isel oedd gan y bardd Longfellow am bregeth os na fyddai ynddi fwyd enaid, ychydig o'r manna nefol. Pregeth yn hollti blew duwinyddol, nid pregeth mo honi. Nid yw pregeth i mi'n bregeth os na allaf glywed curiad y galon ynddi. Nid araeth proffeswr y gwyddorau ddylai pregeth fod, ond arllwysiad allan o eiriau poethion calon llawn teimlad. Yn rhy fynych nid yw pregeth yn ddim amgen nâ goglais clust, arddangosiad o ddawn a dysg y pregethwr feallai, ond heb ynddi ddim i ddeffroi cydwybod, i wresogi'r teimlad crefyddol, nac i leddfu dolur calon sydd ar hollti gan ofid neu drallod.

Y FARN YN OL SWEDENBORG.

Mae gohebydd mewn rhifyn diweddar o'r *Gweithiwr Cymreig* yn nodi y gwahaniaeth rhwng opiniwn Swedenborg am y Farn a'r dyb boblogaidd. Y dyb boblogaidd yw fod y marw yn myned i nefoedd neu uffern ar unwaith, ac yna, mewn dyfodol pell, yn dychwelyd o'r un nefoedd neu uffern i'w farnu. Ymddangosai hyny yn wrthun i Swedenborg, yr hwn a ddysgai fod y Barnwr wrth y drws, fod y Farn ar unwaith, nid ar derfyn amser ond ar derfyn bywyd. Nid ar y ddaear mae y Farn, o'r ddaear i'r Farn; nid yn y nef, o'r Farn i'r nef. Yn myd yr ysprydoedd mae y Farn, sefyllfa ganolog *Sheol* yr Hen Destament, *Hades* y Newydd—y man y cwrddodd Saul â Samuel—y man yr aeth y lleidr iddo oddiar y Groes.

S. N. S.

CREFYDD A'I FFRWYTH.

Yr wyf yn cofio clywed am y Parch. John E. Jones, hen olygydd Yr Ymofynydd, pan ddarfu iddo ymsefydlu gyntaf yn Mhenybont-ar-Ogwr, nad oedd ei bresenoldeb yn dderbyniol gan rai a ystyrient eu hunain yn fwy iawn eu ffydd nag ef. A rhyw dro, fel yr oedd yn myned ar hyd yr heol, dyma grwt bychan yn dyfod ac yn gwaeddi "Sosin" arno. Galwodd yntau y bychan ato, a gofynodd iddo pwy oedd wedi ceisio ganddo wneuthur hyny. Atebodd yn onest iawn fod ei fam wedi rhoi dimai iddo am hyny. Ceisiodd Mr. Jones ganddo beidio gwneuthur hyny drachefn, ac y cawsai geiniog ganddo ef. Mae Mr. Jones wedi marw er ys blynyddoedd, a thebyg fod y fam wedi marw, ac feallai y mab hefyd, ond y mae yr un yspryd yn parhau yn fyw. Y mae dynion a dybiant nad yw fy ffydd I yn iawn, ac a ddangosant ragoriaeth eu hunain trwy fy erlid I, a gwneyd niwed personol i mi. Gosodant lawer o bwys ar adnodau, ond amheus genyf a oes ganddynt adnod yn cymmeradwyo ymddygiad o'r fath.

P. P.

Y BARNWR A'R CARCHARORION.

Yr oedd Ffelix yn eistedd yn ei sedd farnol, a Phaul y carcharor o'i flaen yn sefyll ei brawf. Ffelix â gallu bywyd a marwolaeth yn ei law, Paul heb un gallu ond y gallu sydd yn deilliaw oddiwrth gydwybod ddieuog. Y mae Paul yn cael cenad i lefaru, "Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd, *Ffelix a ddychrynodd.*" Sylwer nad yw yr hanes ddim yn dywedyd mai y carcharor a ddychrynodd, ond mai Ffelix, Ffelix y barnwr, a ddychrynodd. Darllenwch yr hanes yn yr Actau, pennod xxiv.

GENESIS ETTO.

Mae nhw yn dweyd nad yw banner y byd ddim yn gwybod sut mae yr banner arall yn byw; fod gan bob un ei *hobby* neu ei bwnc mawr ei hunan ag sydd yn cau allan braidd bob pwnc arall. Yn y trefydd mawrion y pwnc pwysicaf, yn ddiweddar, oedd sut i gadw y newyn oddiwrth ddrysau y tlodion—sut i ddofi y llew hwn yn eu mysg. Mewn llawer man yr ydys wedi bod mewn pryder yn nghylch rhyfel. Tybia rhai mai anffawd o'r mwyaf fyddai cael rhyfel yn awr pan y mae arwyddion adfywiad yn y cylchoedd masnachol; ond y mae swn rhyfel yn yr awyr, a bygythion i'w clywed o lawer cyfeiriad. Cysgu yn unig mae cŵn rhyfel yn Ffrainc a'r Almaen, yn Rwssia ac Awstria, yn yr Eidal, yn Nhwrci, yn Bwlgaria. Pan y mae rhai fel hyn yn ymbryderu, y pwnc mawr sydd yn rhwygo cymdeithas yn Rhydychain oleuedig yw natur y canlyniadau o fwyta yr afal yn Ngardd Eden gynt.

Dau offeiriad sydd yn ymladd y *duel*, ond y mae ganddynt lawer yn actio y *seconds*. Un Fletcher a gyhuddir, ac un Foulkes sydd wedi arogli yr heresi. Mae Foulkes ei hunan wedi bod unwaith, meddir, ar dir gwrthgiliad, wedi gadael Eglwys Loegr unwaith, a dychwelyd drachefn. Efallai ei fod, trwy y profiad hwnw, yn gyflymach ei arogl, ac yn gallu actio y *bloodhound* gyda mwy o sicrwydd. Mae y mater wedi ei ddwyn gerbron chwech o'u brodyr offeiriadol i'w benderfynu; ond gyda'r canlyniad fod tri yn ei farnu yn euog a'r tri ereill yn ddieuog. Rhoddodd y cadeirydd ei bleidlais o ochr y cyhuddedig, ac felly, dyna fe yn rhydd. Y Sul canlynol, traddododd Mr. Fletcher bregeth ar bwnc "Yr Afal," pan y rhoddodd ddatganiad amlwg i'w holl heresiau blaenorol. Nid yw Mr. Fletcher yn credu fod pennodau cyntaf Genesis i'w derbyn yn llythyrenol—yn y pethau hyny y maent yn amlwg yn croesi addysg y gwyddorau. Nid yr un yw addysg Genesis ac addysg Daeareg am oedran y byd. Paham yr hawlir i'r Beibl yr hyn nid yw yn hawlio iddo ei hunan. Nid yw y Beibl yn un man yn hawlio anffaeledigrwydd yr hanes yn Genesis.

SELF-EXAMINATION.—*Lyte.*

(*From the Greek of Pythagoras.*)

Let not soft slumbers close my eyes
Before I've recollected thrice
The train of actions through the day:
Where have my feet marked out their way?
What have I learnt where'er I've been,
From all I've heard, from all I've seen?
What know I more that's worth the knowing?
What have I done that's worth the doing?
What have I sought that I should shun?
What duties have I left undone?
Or into what new follies run?
These self-inquiries are the road
That leads to virtue and to God.

Manion a Hanesion.

EMYN HINDWAIDD.

1. Na ad i mi, O Arglwydd, fyned yn ŵr i'r tŷ o glai; cymmer drugaredd, Hollalluog, cymmer drugaredd!

2. Os âf yn mlaen dan grynu, megys wmmwl yn cael ei yru gan wynt; cymmer drugaredd, Hollalluog, cymmer drugaredd!

3. O ddiffyg nerth, Ti Dduw nerthol a dysglaer, yr wyf wedi myned ar gyfeiliorn; cymmer drugaredd, Hollalluog, cymmer, &c.

4. Syched a ddaeth ar yr addolwr, er iddo sefyll yn nghanol y dyfroedd; cymmer drugaredd, Hollalluog, cymmer drugaredd!

5. Pa bryd bynag y byddom ni, ddynion, O Arglwydd, yn troseddu gerbron llu y nef, pa bryd bynag y byddom ni yn tori dy ddeddf mewn anystyriaeth; na chospa ni, O Dduw, am y drosedd.

ETTO.

1. Arglwydd mawr y bydoedd a wel fel pe byddai yn agos. Os tybia dyn ei fod yn rhodio yn ddirgel, mae Duw yn gwybod yr oll.

2. Os tybia dyn ei fod yn sefyll neu rodio, neu ymguddio, os ä i orwedd i lawr neu godi i fyny, pa ddau ddyn bynag a eisteddant yn nghyd i ddystaw siarad, Duw a'i gwyr, mae efe yno megys trydydd.

3. Y ddaear hon hefyd a berthyn i Dduw y brenin, a'r wybren eang hon, gyda'i therfynau pell. Y ddau fôr ydynt ei lwynau ef; efe a gynnwysir hefyd yn y dafn bychan hwn o ddwfr.

4. Yr hwn a ffoai hwnt i'r nen, ni wnai hyd y nod hwnw ddianc oddiwrth Dduw. Ei yspiwyr êf a gychwynant o'r nef at y ddaear hon; gyda mil o lygaid y goruchwyliant y ddaear hon.

5. Y Brenin Dduw a wel hyn oll, yr hyn sydd cydrhwng nef a daear, a'r hyn sydd hwnt. Mae yn cadw cyfrif o amrantiadau llygaid dynion.

6. Bydded i'r rhwydau, y rhai a safant ar wasgar saith wrth saith, ddal yr hwn a ddywed anwiredd, a phasio heibio iddo ef a ddywed y gwir.

ETTO.

1. Yn y dechreuad yr ymddangosodd Ffynnonell y goleuni euraidd. Hwn ydoedd unig-anedig Arglwydd pob peth sydd yn bod. Efe a sylfaenodd y ddaear a'r wybren fry. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

2. Efe sydd yn rhoddi bywyd. Efe sydd yn rhoddi nerth; a'i fendith gan yr holl dduwiau dysglaer a chwennychir. Cysgod yr hwn yw anfarwoldeb. Cysgod yr hwn yw marwolaeth. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

3. Yr hwn trwy ei nerth yw unig frenin y byd sydd yn anadlu ac yn neffro. Yr hwn a lywodraetha yr oll, dyn ac anifail. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

4. Trwyddo Ef y mae y wybren yn ddysglaer a'r ddaear yn gadarn. Trwyddo Ef y sefydlwyd y nefoedd—ïe, nef y nefoedd. Yr Hwn a fesurodd y goleuni yn yr awyr. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

5. I'r Hwn y mae nefoedd a daear yn sefyll yn gadarn trwy ei ewyllys, yn edrych i fyny, yn crynu o fewn. Gerbron yr hwn y mae haul y boreu yn ymddysgleirio. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

6. I ba le bynag yr aethai y cymmylau dyfroedd nerthol, lle y gosodasant yr had, ac y cynneuasant yr had, ac y cynneuasant y tân, oddiyno yr ymgododd efe, yr hwn yw unig fywyd y duwiau dysglaer. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

7. Yr Hwn, trwy ei nerth, a edrycha hyd y nod goruwch y cymmylau dwfr, y cymmylau a roddasant nerth, ac a oleuasant yr aberth; yr Hwn sydd Dduw uwchlaw y duwiau oll. Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

8. Oni ddichon Efe ein dinystrio—Efe, creawdwr y ddaear—Efe, y cyfiawn a greodd y nefoedd—yr hwn a greodd hefyd y dyfroedd dysglaer a nerthol? Pwy yw y Duw i'r hwn y cyflwynwn ein haberth?

Yn ngwyneb prinder offeiriaid, mae yr Eglwys yn gwaeddi am bregethwyr lleygol; ond gallwn feddwl fod hyny yn anmhossibl, yn ngwyneb honiadau yr Eglwys mewn perthynas i'r Olyniaeth Apostolaidd. Yr ydym yn byw mewn oes ryfedd, fodd bynag, ac nis gwyddom pa beth fydd yn cymmeryd lle yn y man.

Mae cymdeithas newydd wedi ei sefydlu dan yr enw "Speak-no-evil-Society." Y mae pob aelod i ofyn tri chwestiwn iddo ei hunan cyn llefaru am arall. 1. 'Ydy' e'n wir? 2. 'Ydy' e'n garuaidd? 3. 'Ydy' e'n angenrheidiol? Yr ydys wedi cyhoeddi y gofyniadau yn YR YMOFYNYDD o'r blaen.

Ffyliaid dylion yw rhai dynion,
Er colegau ac ysgolion;
Pan na fyddo un gwir ofid,
Creant fil o boenau'n bennyd.

A wyt ti'n caru bywyd? Os felly, paid a gwario amser, y stwff o'r hwn y gwneir bywyd.—*Franklin.*

Know that pride,
Howe'er disguised in its own majesty,
Is littleness.—*Wordsworth.*

Pa le bynag y mae pren ewyllys da yn cymmeryd gwraidd, efe a enfyn allan

gangenau a redant uwchlaw yr wybren.
—*Saadi.*

There is a toil
That with all others level stands;
Large charity doth never soil,
But only whiten soft white hands.
—*Lowell.*

Gwerthwyd llyfr yn Cologne, yn ddiweddar, am £320. Yr oedd yn cynnwys llythyr Lladin o eiddo Columbus, darganfyddwr America, ysgrifenedig yn 1493. Nid oedd ond pedair dalen i gyd.

Y nos Sul diweddaf o Ionawr, 1887, derbyniodd Dr. Talmage 341 o aelodau newyddion i'w eglwys. Nid yn hawdd y gallai y doctor bregethu oddiar y geiriau, "Cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd."

Marwgofion.

Rhagfyr 25, 1886, Lettitia, gwraig Thomas Jones, Nantyrhibo, ger Llandeilo, yn 28ain oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i James Davies, genedigol o'r Berthlwyd, ger Pantydefaid, ac wedi hyny trigiannai yn Mhentre Rhys ger Llanwnen, Sir Aberteifi, ac Eliza, ei wraig. Bu Lettitia yn clafychu gryn amser yn y ddarfodedigaeth. Dyoddefodd ei chystudd yn amyneddgar; boddlonai i'r drefn. Teimla ei phriod, ei rhieni, a'i unig chwaer, hiraeth dwys ar ei hol. Bydded iddynt ymfoddloni i'r oruchwyliaeth, a diolch am y cyfle a gawsant i weini i'w hangenion yn y cyfyngder yr aeth hi drwyddo. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn Mynwent Eglwys Plwyf Llandeilo Gweinyddwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. W. Davies, Penybanc, lle yr oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr, ac yn yr eglwys gan gurad y lle.—*J.E.*

Rhagfyr 29, 1886, Mary Evans, gynt o Brynmaen, Plwyf Llangyfelach, ond yn ddiweddar o Graigtrebannws, ger Pontardawe, lle y preswyliai gyda'i mab-yn-nghyfraith a'i merch, Evan a Rachel Bevan, yn 82 mlwydd oed. Bu yr hen chwaer yn aelod rheolaidd yn y Gellionen am ran faith o'i bywyd hir, ac yn barchus iawn yn yr ardal y preswyliai. Dangoswyd hyn yn neillduol yn y flwyddyn 1873, pryd y prynwyd hen Capel Gellionen a'r fynwent, ac ei hadnewyddwyd drwy yr ymdrech lwyddiannus a wnaeth yn ei hardal i gasglu yn mhlith ei cbyfeillion a'i chydnabod at drysorfa'r capel. Yr oedd y mawr a'r bach yn cyfranu i Mari Brynmaen, fel ei gelwir; ar ddydd y cyfrif, dygodd swm anrhydeddus i fewn i'r pwyllgor. Yr oedd hen gapel ei chladdle, Gellionen, yn hen fangre gyssegredig iddi hi er ys amser mawr, bellach. Deuparth yspryd sel a sefydlogrwydd yr hen fam grefyddol hon a syrthio ar ei merched. Y mae wedi rhoddi esiampl yn ei chymmeriad a'i bywyd diehlynaidd, a'i llafur a'i hymdrech o blaid yr hyn oedd yn dda a rhinweddol, teilwng i'w efelychu. Cafodd yr hyfrydwch o weled ei phlant mewn safleoedd cyssurus; ei meibion a weinasant yn garedig i'w hangenion yn y blynyddoedd diweddaf o'i bywyd. Claddwyd hi yn medd ei phriod, yr hwn oedd wedi ei blaenu rhyw 34 o flynyddau, yn mynwent Gellionen, y Sadwrn canlynol, pryd y daeth nifer lluosog o gyfeillion a pherthynasau i'r ymadawedig i dalu iddi y gymmwynas olaf. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Evans, gynt gweinidog y lle. Felly y mae'r ffyddloniaid yn syrthio o un i un.

Ionawr 13, yn 79 mlwydd oed, Mrs. Jones, o bentref Llanybther, gweddw y diweddar Mr. Jno. Jones, Rhandir, Llanwenog, a mam y Parch. Evan Jones, B.D., Teudraeth, Sir Benfro. Claddwyd y Llun canlynol yn Mynwent Eglwys Pencarreg, a gweinyddwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Ionawr 20, yn 70 mlwydd oed, ar ol blynyddau o lesgedd, John Hopkin, Dolgranod, Llanwenog. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol yn Mynwent Eglwys y Plwyf, a gweinyddwyd yn y ty ar yr achlysur gan J. D., Capelybryn. Priod ffyddlon, tad cariadus, a chymmydog tangnefeddus, ydoedd.

Ionawr 26, yn 8 mlwydd oed, bu farw merch David a Mary Jeremiah, Rhydyfran, ger Cribin, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd trwm. Y Sadwrn canlynol, hebryngwyd ei gweddillion marwol i fynwent Eglwys Llanwnen gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd yn y tŷ gan weinidog y

Cribin. Caffed y rhieni nerth i beidio galaru yn ormodol.

Chwefror 8, yn 18 diwrnod oed, John, mab bychan Evan a Mary Jones, Blaenmaes, Pencarreg. Claddwyd yr un bychan yn Brondeifi, a gwasanaethwyd gan R. C. Jones.

LLINELLAU

Er coffadwriaeth am John a Richard Hughes, dau fab Mr. a Mrs. Hughes, Cross Keys, Cefncoed.

Ar foreu ysplenydd yr hafddydd dymunol,
Tra'r adar yn pyncio eu cerdd rhwng y dail,
A phob peth o'm hamgylch yn edrych yn siriol,
Daeth cwmmwl i guddio pelydrau yr haul;
Ymledai y cwmmwl--y gwlaw a ddisgynodd,
Aeth dychryn ar deulu y goedwig i gyd,
Y llysiau o'm cwmpas a wisgwyd â dagrau,
Rhai gynt o'ent yn serchog ac hawddgar eu bryd.

Pan ydoedd awyrgylch eich bywyd heb gwmmwl,
Cyfododd y gwyntoedd, daeth tymhestl gref,
Mae stormydd mewn bywyd yn llesiol i'r Cristion
I'w ddwyn ef yn nes i awelon y nef;
Doeth droion Rhagluniaeth i ni sydd yn dywyll,
I lygad o gnawd try yr olwyn o chwith;
Ac nis gallwn ganfod pa amcan, pa ddyben
Yw dwyn ein hoffusaf gyfeillion o'n plith.

Mae gwedd eich gwynebpryd yn nodi'r gair "galar,"
Mae'r dagrau'n amlygu briw deimlad eich bron,
A phan ydoedd gobaith yn t'wynu goleuni,
Eich dydd aeth yn nos pan gollasoch eich John.
Pan welwyd ei ruddiau gan anadl marwolaeth,
Pan beidiodd y galon â churo byth mwy,
A'r mwyn lais a ballodd, daeth hiraeth i'r orsedd,—
Mae enw oer angeu yn rhoi i ni glwy.'

Eich cwpan o chwerwedd oedd etto heb lanw,
Ac heb ei arlwyo i gyd oedd eich bwrdd,
Daeth etto negesydd â chanddo frys-genad:
Rhaid etto i'r Arglwydd gael Richard i ffwrdd;
Ehedodd ei yspryd o'r glyn, lle mae wylo,
I wlad heb ddim llygredd, heb ddagrau, heb gur,
Na neb o'r preswylwyr yn d'wedyd, "Claf ydwyf;"
Ni cheir y gair "beddrod" yn ngwlad y rhai pur.

Nac wylwch, rieni, wrth weled y fynwent,
Ac na ocheneidiwch wrth ganfod y bedd,
Nid ydyw ond cartref y corff oedd lygredig,
Yr enaid sydd fry mewn dedwyddwch a hedd;
Ac er mai oer dyweirch sy'n cuddio eu gwyneb,
Gerllaw gwelaf flodau yn siriol eu pryd,
Fel pe am ein dysgu wrth deithio y ddaear
Fod bywyd i'w dreulio mewn rhyw arall fyd.

Er dyoddef dirboenau nes iddynt hwy riddfan,
A cheisio am foreu, a boreu am nos,
Mae gorphwys am ennyd yn felus i'r babell,
Dan gysgod cadarnaf yr ywen werdd, dlos;
Yn dawel yr hunoch, medd calon eich cyfaill,
A gollwng gwir ddeigryn sydd heddwch i'm bron,
A boed i'r elfenau o hyd fod mewn cynghrair,
Er gwylio yn gysson fedd Richard a John.

Mor burion y cofiwn eu hyder am wella
Pan ddeuai yr hafddydd â'r haul yn ei des,
Y maesydd yn wyrddion, y goedwig yn ddeiliog;
Gobeithient, pryd hwnw, caent hwythau ryw les;
Ac Haf hwy a gawsant, ond nid ar y ddaear,—
Fe'u galwyd i rodio hardd faesydd y ne,'
Lle nad oes un Gauaf na haul yn machludo,
Ond bywyd mewn blagur yn harddu'r holl le.

Fy anwyl gyfeillion, i chwi mi r'of ffarwel
Hyd foreu ardderchog y codi sydd draw,
Pan ddeuir â'r udgorn i seinio trwy'r ddaear
Fod adeg i sefyll y frawdle gerllaw;
A ninau adawyd, mewn amser gwnawn gofio,
Cyn elom i orphwys dan gysgod yr yw,
I geisio yr hyn wna ein cynnal pryd hwnw,
A Hoches dan aden gysgodol ein Duw.

Cefn. J. T. Evans.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.